

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - 2022-23

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r adroddiadau diweddaraf ar gyflwr yr hinsawdd a byd natur yn syfrdanol i'w darllen. Hyd yma, nid yw'r ymdrechion byd-eang wedi bod yn ddigon da i ddadwneud newid yn yr hinsawdd a rhoi stop ar ddirywiad byd natur. Er bod amser o hyd i lwyddo yn hyn o beth, mae'r amser hwnnw'n mynd yn fwyfwy prin. Bydd yr hyn a fydd yn digwydd yn y degawd hwn yn siapio sut olwg fydd ar y byd am genedlaethau i ddod.

Yn dilyn Uwch-gynhadledd COP26, a chyn uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar fioamrywiaeth, mae pwysau cynyddol ar lywodraethau i sicrhau bod eu hymrwymadau rhyngwladol mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hategu gan weithredoedd a buddsoddiad. Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23, sef y Gyllideb gyntaf yn y Chweched Senedd, yn gyfle i Lywodraeth Cymru wneud hynny.

Mae ambell arwydd calonogol bod Llywodraeth Cymru yn barod i wneud pethau'n wahanol yn y Chweched Senedd, gyda chreu'r Weinidogaeth Newid Hinsawdd, y dull newydd wrth fuddsoddi mewn seilwaith, a'r adolygiad o gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. Ond y prawf go iawn fydd p'un a yw hyn yn arwain at welliannau mewn dulliau cyflawni a chanlyniadau. Rydym wedi clywed dro ar ôl tro fel Pwyllgor mai hwn yw'r degawd y mae'n rhaid gweithredu ynddo. Mae angen inni weld yr ewyllys da yn troi'n weithredoedd pendant â digon o adnoddau.

Felly, er bod lle i fod yn weddol optimistaidd, mae cwestiynau difrifol yn parhau heb eu hateb. Sut fydd y gost ynghlwm wrth ddatgarboneiddio tai presennol Cymru yn cael ei thalu yn y tymor hir? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau pontio cyfiawn i Gymru Sero Net, lle nad yw bwrn y newidiadau sydd eu hangen yn syrthio ar y rhai tlotaf yn ein cymunedau?

Mae'r rhain yn gwestiynau sylfaenol a byddant yn effeithio ar ble rydym yn byw, sut yr ydym yn gweithio, a sut yr ydym yn treulio ein hamser hamdden. Gobeithiwn y gall Llywodraeth Cymru ymhelaethu ar hyn yn ei hymateb i'n hadroddiad.



## Cyflwyniad

### Ein ffyrdd o weithio

- 1.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ('y Dirprwy Weinidog') yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr 2022. Darparodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymlaen llaw.
- 2.** Oherwydd yr amserlen ar gyfer craffu ar y gyllideb, nid oedd yn bosibl i ni ofyn barn rhanddeiliaid i lywio ein gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio tystiolaeth a ddaeth i law fel rhan o'n gwaith ar flaenoriaethau ar gyfer y Chwchedd Senedd, ein gwaith ar yr amgylchedd morol, ein sesiwn graffu flynyddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23.

### Trosolwg o'r dyraniadau

- 3.** Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn darparu cynllun gwariant tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf.
- 4.** Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd yn 2022-23 yw £2.856 biliwn.<sup>1</sup> Mae'r Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd yn cynnwys dyraniadau ar gyfer meysydd polisi sydd y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel tai, er enghraifft.
- 5.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn darparu dyraniadau cyllideb ar gyfer camau gweithredu sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn unig, wedi'u categorio fel a ganlyn: Seilwaith Economaidd; Amgylchedd, Ynni a Chynllunio; a Chyflawni'r Strategaeth Ddigidol.
- 6.** Cyfanswm y gyllideb refeniw yn 2022-23 ar gyfer yr uchod yw £703.021 miliwn (heb gynnwys Adnoddau Anariannol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Mae hynny'n gyfwerth â chynnydd o £174 miliwn (33%) o'i gymharu â 2021-22. O hyn, dyrennir £137 miliwn i'r Seilwaith Economaidd a £37 miliwn i'r Amgylchedd, Ynni a Chynllunio. Nid oes unrhyw newid yn y dyraniad ar gyfer Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol.

---

<sup>1</sup> Gan gynnwys Adnoddau Cyllidol ac Adnoddau Anghyllidol a Chyfalaf ond heb gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

---

**7.** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf yn 2022-23 ar gyfer Seilwaith Economaidd a'r Amgylchedd, Ynni a Chynllunio yw £878.5 miliwn, gostyngiad o £42.613 miliwn ers cyllideb derfynol 2021-22. Mae gostyngiadau pellach yn 2023-24 a 2024-25.

**8.** Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, cynhaliodd Llywodraeth Cymru "adolygiad sylfaenol o holl gyllidebau cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn esbonio:

*"Yn hytrach na chyflwyno cyllidebau llinell sylfaen o'r flwyddyn flaenorol, ac yna eu diwygio ar gyfer ailflaenoriaethu a phwysau ychwanegol, mae'r holl gyllidebau adrannol wedi'u hailosod i sero. Yna cynhaliwyd adolygiad o gynigion adrannol, yn dilyn asesiad yn erbyn ystod o feini prawf allweddol. Bydd mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd yr adolygiad hwn."*

# 1. Newid hinsawdd ac ynni

## Newid hinsawdd

**9.** Ym mis Mawrth 2021, mabwysiadodd Cymru darged statudol i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, a thargedau interim mwy heriol ar gyfer lleihau allyriadau carbon a chyllidebau carbon.

**10.** Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r cynllun, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-2025) ('y Cynllun Sero Net'), sy'n cyflwyno polisiau a chynigion ar draws yr holl bortffolios Gweinidogol i fodloni Cyllideb Garbon 2, ac i greu'r sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a thargedau lleihau allyriadau Cymru yn y dyfodol.

**11.** Dywedodd papur tystiolaeth y Gweinidog fod y newid yn yr hinsawdd "wrth wraidd y llywodraeth hon, a dyna pam y crëwyd y Weinyddiaeth Newid Hinsawdd, gan ddwyn ynghyd y meysydd polisi mawr i helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cyfreithiol rwymol o gyrraedd Sero Net erbyn 2050".

**12.** Eglurodd y Gweinidog fod Cynllun Sero Net Cymru wedi llywio Cyllideb Ddrafft 2022-23. Dywedodd, "Cafodd yr uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Sero Net Cymru ei lywio gan ein cyfrifiannell allyriadau ein hunain ac rydym yn gwella ein dulliau o werthuso effaith carbon wrth ddatblygu ein polisi".

**13.** Roedd papur tystiolaeth y Gweinidog yn amlinellu'r gwaith a wnaed i amcangyfrif effaith carbon penderfyniadau gwariant a sut yr oedd hyn wedi dylanwadu ar y dull o ddyrannu'r gyllideb. Dywedodd:

*"Drwy'r broses o bennu'r gyllideb, buom yn ceisio deall ymhellach yr allyriadau uniongyrchol oes gyfan o adeiladu, gweithredu a datgomiynu ein maes buddsoddi cyfalaf, yn ogystal â newidiadau anuniongyrchol a ragwelir mewn allyriadau carbon yn sgil newidiadau mewn ymddygiad ac effeithiau cadwyni cyflenwi o'r buddsoddiad. Mae'r asesiadau hyn yn anodd ac mae ein gallu yn gwella".*

**14.** Eglurodd y Gweinidog beth yw'r trefniadau presennol ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Sero Net a'r targedau lleihau allyriadau, sy'n cynnwys adroddiadau cynnydd statudol a data blynyddol am allyriadau.

**15.** Dywedodd papur tystiolaeth y Gweinidog, "Ni fydd y rhan fwyaf o'r costau o ran cyflawni ein targedau hinsawdd dros gyfnod yr ail gyllideb garbon (2021-25) yn dod yn uniongyrchol i'r Llywodraeth". Cydnabu'r Gweinidog fod "angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau ariannol i ysgogi buddsoddiad gan eraill". Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at waith dadansoddi manwl sy'n cael ei wneud ym maes ynni adnewyddadwy a phlannu coed, gan ddweud bod hyn yn

enghraifft o sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddenu buddsoddi preifat er mwyn gweithredu ym maes newid hinsawdd. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod y buddion economaidd o fuddsoddi preifat yn cael eu cadw yng Nghymru.

## Ein barn ni

Mae'r Chwched Senedd yn cyd-daro â chyfnod tyngedfennol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi disgrifio'r 2020au fel degawd tyngedfennol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd, gan ddweud bod angen i Gymru wneud mwy o gynnydd i leihau allyriadau carbon yn y degawd hwn nag yn y tri diwethaf. Bydd y camau a gymerir, neu na chaiff eu cymryd, gan Lywodraeth Cymru yn ystod tymor y Chwched Senedd yn hollbwysig yn ymdrechion Cymru i ddod yn genedl Sero Net.

Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i lunio ymateb brys a radical i'r argyfwng newid hinsawdd drwy ei phenderfyniadau gwariant. Mae rhai arwyddion calonogol bod Llywodraeth Cymru yn barod i wneud hynny, gyda mwy o fuddsoddiad mewn meysydd allweddol, gan gynnwys coedwigaeth, teithio llesol, datgarboneiddio tai, yr economi gylchol, ynni adnewyddadwy, a llifogydd. Y gwir brawf, fodd bynnag, yw a fydd y buddsoddiad ychwanegol yn ddigon i gyrraedd Cyllideb Garbon 2 a gwneud cynnydd tuag at dargedau lleihau allyriadau.

Rydym yn bwriadu cynnal gwaith craffu systematig ar y cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Sero Net a thargedau lleihau allyriadau yn ystod y Chwched Senedd. Er ein bod yn nodi'r trefniadau monitro ac adrodd presennol ar gyfer y Cynllun Sero Net a thargedau, credwn fod lle i wella.

Gwyddom y bydd angen lefel sylweddol o fuddsoddiad er mwyn i Gymru gyrraedd ei tharged Sero Net yn 2050. Bydd llawer o hyn yn dod o fuddsoddiad preifat. Hoffem gael rhagor o fanylion am waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu buddsoddiad preifat i dalu'r gost o gyrraedd sefyllfa Sero Net.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru wella'r trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer cyflawni'r Cynllun Sero Net a thargedau lleihau allyriadau, gyda'r nod o gefnogi gwaith craffu'r Senedd yn well. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Sero Net, ac adroddiadau mwy rheolaidd ar y cynnydd a wneir i gyflawni gostyngiadau allyriadau.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad cynhwysfawr o'r gwaith y mae' ei wneud i ddenu buddsoddiad preifat i dalu'r gost o gyrraedd sefyllfa Sero Net.

## Ynni adnewyddadwy

**16.** Mae gan Lywodraeth Cymru y targedau canlynol ar gyfer ynni adnewyddadwy:

- dylai 70% o drydan Cymru ddod o ffynonellau adnewyddadwy Cymreig erbyn 2030, a
- dylai 1 GW o'r ynni adnewyddadwy fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030.

**17.** Mae'r Cynllun Sero Net yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd o 100 MW erbyn 2026 yn yr ynni adnewyddadwy y bydd cyrff cyhoeddus a mentrau cymunedol yn ei gynhyrchu. Mae hefyd yn cynnwys uchelgais i gyflwyno 1GW o gapasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol erbyn 2025.

**18.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gefnogi arloesi ym maes technoleg ynni adnewyddadwy newydd. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd yn defnyddio'r 2020au fel degawd i arddangos ac i ddechrau cyflwyno'r technolegau hyn yn fasnachol cyn eu cyflwyno'n llawn yn ystod y 2030au a'r tu hwnt.

**19.** Mae'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ynni Glân yn £8.5 miliwn, sy'n gynydd o £5 miliwn ers 2021-22. Bydd hyn yn ariannu'r broses o ddatblygu tystiolaeth i greu llwybr ar gyfer datgarboneiddio system ynni Cymru. Bydd hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth, gan gynnwys y rhaglen Ynni Lleol a rhaglenni Gwasanaeth Ynni a Byw'n Glyfar newydd Llywodraeth Cymru.

**20.** Mae'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn parhau'n ddigyfnewid ar £3.97 miliwn. Mae dyraniad cyfalaf ychwanegol o £2 filiwn ers 2021-22, gan gynyddu'r cyllid i £15 miliwn yn 2022-23. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth am ddim i sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

**21.** Dyrennir cyfanswm o £24 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer Ynni'r Môr (£4 miliwn yn 2022-23 a £10 miliwn yn y blynyddoedd dilynol). Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i archwilio'r cyfleoedd i ddatblygu'r sector morol drwy'r Rhaglen Ynni Morol.

**22.** Cyfeiriodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog at y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy, gyda'r nod o ganfod y rhwystrau i gynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu, a chanfod camau i oresgyn y rheini. Ymhlith yr argymhellion o'r gwaith manwl hwn mae adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r prosesau trwyddedu morol, cydsynio a chefnogi, a chanfod y prif fylchau yn y dystiolaeth forol a daearol a ffyrdd o lenwi'r bylchau hyn.

**23.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y gofynnwyd am farn rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r sector amgylcheddol yn ystod y gwaith dadansoddi manwl a wnaed yn y maes hwn.

## Ein barn ni

Yn ystod ein gwaith ar y blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, ynghyd â'n gwaith ar reoli'r amgylchedd morol, mynegodd rhanddeiliaid bryder am y rhwystrau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac yn enwedig ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae'r rhain yn cynnwys prinder yn y sylfaen dystiolaeth yn y maes amgylcheddol morol a chymhlethdod ac oedi yn y broses gydsynio a thrwyddedu. Bydd yn hanfodol mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn os yw Cymru am gyrraedd ei tharged Sero Net yn 2050 ac elwa ar y twf yn y sector ynni adnewyddadwy.

Rydym wedi ein calonogi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith yn gynnar yn y Senedd hon i ystyried sut i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu, drwy geisio dadansoddi'r maes yn fanwl. Mae rhai o'r argymhellion o'r gwaith manwl hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gyda ni gan rhanddeiliaid.

Rydym yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu anghenion adnoddau Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP) Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd parhad yr OREP yn hollbwysig ac ystyried y cynnydd disgwylidig yn natblygiad ynni adnewyddadwy ar y môr. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol, aml-flwyddyn ar gyfer yr OREP.

Cyn bo hir byddwn yn gwneud gwaith ar ynni adnewyddadwy, a fydd yn cynnwys ystyried yr argymhellion a'r camau nesaf. Byddwn yn adolygu'r cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion fel rhan o'n gwaith craffu parhaus yn ystod tymor y Senedd hon.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio tuag at greu Ynni Cymru, cwmni ynni cyhoeddus i Gymru. Byddwn yn dangos diddordeb mawr yn y cynigion wrth iddynt gael eu cyflwyno, gan gynnwys yr effaith bosibl a gaiff Ynni Cymru ar brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad yr adolygiad o'r broses gydsynio a'r dystiolaeth a'r cyngor sy'n cyd-fynd â honno. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau yn y dyraniad cyllidebol o ganlyniad i'r adolygiad, ac am y cyllid ar gyfer Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Diogelwch tomenni glo

**24.** Mae gan Gymru dros 2,500 o domenni glo segur. Oherwydd effeithiau cynyddol newid hinsawdd mae mwy o risgiau diogelwch yn gysylltiedig â'r tomenni hyn bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen adfer hirdymor i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

**25.** Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £4.5 miliwn mewn refeniw (dros dair blynedd), a chyfanswm cyllid cyfalaf o £44.4 miliwn, i wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar domenni glo.

**26.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith i ganfod yr holl domenni glo segur, a bod gwaith yn mynd rhagddo i ganfod y gwaith cynnal a chadw y mae angen ei wneud.

**27.** Eglurodd swyddog y Gweinidog fod cyllid hyd at 2024-25 ar gyfer gwaith cynnal a chadw, er y byddai angen tua £0.5 biliwn dros y ddeng mlynedd nesaf i dalu cost lawn y rhaglen adfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU i rannu cost y rhaglen, gan ddadlau bod tomenni glo yn waddol o hanes diwydiannol Cymru sy'n rhagflaenu datganoli. Mae Llywodraeth y DU, hyd yma, wedi bod yn amharod i roi cyllid. Dywedodd y Gweinidog nad oedd modd cyfiawnhau hyn o gwbl.

**28.** Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod cymunedau'n ddiogel, a bod y drefn arolygu yn parhau. Dywedodd y byddai'r Llywodraeth bob amser yn parhau i wneud hyn.

## Ein barn ni

---

Credwn ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol bod Llywodraeth y DU yn rhannu cost y rhaglen adfer.

Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog bod diogelwch cymunedau sy'n byw ger tomenni glo yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Serch hynny, rydym yn pryderu am effaith penderfyniad Llywodraeth y DU ar y gwaith o ddarparu'r rhaglen adfer yn y tymor hwy, ac ystyried y gost sydd ynghlwm wrthi.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil i wella'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer diogelwch tomenni glo yn ystod y Chweched Senedd. Bydd y Bil yn cael ei lywio gan waith Comisiwn y Gyfraith, sydd i gyhoeddi ei adroddiad yn fuan. Hoffem gael manylion am yr amserlen y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno'r Bil



**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- esbonio a fydd penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â darparu cyllid ar gyfer y rhaglen adfer yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r rhaglen yn y tymor hwy; ac
- egluro a yw'n bwriadu parhau i fynd ar drywydd ei huchelgais i ddefnyddio tomenni glo at ddibenion newydd yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati i gyflwyno'r Bil diogelwch tomenni glo.

## Ansawdd aer

**29.** Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i gyflwyno Bil Aer Glân. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ym mis Ionawr 2021. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch pryd gaiff y Bil ei gyflwyno.

**30.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn amlinellu dyraniadau refeniw cronol ychwanegol ar gyfer ansawdd aer a dŵr - £2 filiwn yn 2022-23, £1.5 miliwn yn 2023-24 ac £1 miliwn yn 2024-25. Mae hefyd yn amlinellu dyraniadau cyfalaf o £5 miliwn yn 2022-23, £2.2 miliwn yn 2023-24 a £300,000 yn 2024-25

**31.** Yn ôl y Gweinidog, bydd y dyraniadau ar gyfer ansawdd aer yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 yn "datblygu targedau ansawdd aer newydd, cyflwyno gwasanaeth monitro ac asesu ansawdd aer newydd i gefnogi camau gweithredu wedi'u targedu i wella ansawdd aer, a gwelliannau i'r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol".

## Ein barn ni

---

Nodwn y gostyngiad sylweddol mewn cyllid cyfalaf ar gyfer ansawdd aer dros y tair blynedd nesaf. Byddem yn croesawu esboniad gan y Gweinidog ar y mater hwn, gan gynnwys a fydd hyn yn effeithio ar gyflawni Cynllun Aer Glân Llywodraeth Cymru ac ar weithredu'r darpariaethau yn y Bil Aer Glân arfaethedig, ac os hynny, sut.

Rydym wedi galw dro ar ôl tro am gyflwyno Bil Aer Glân yn ail flwyddyn y Chweched Senedd. Drachefn, rydym yn ailadrodd yr alwad honno.

Dywedodd y Gweinidog wrthym o'r blaen ei bod yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân erbyn diwedd mis Hydref 2021. Nid yw'r crynodeb hwnnw wedi'i gyhoeddi eto. Byddem yn croesawu esboniad am yr oedi, gan gynnwys a fydd hyn yn effeithio ar yr amseru o ran cyflwyno'r Bil Aer Glân.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rheswm dros y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf ar gyfer ansawdd aer o £5 miliwn yn 2022-23 i £0.3 miliwn yn 2024-25.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y bydd y crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) yn cael ei gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys esboniad am yr oedi cyn ei gyhoeddi a dylid egluro a fydd hyn yn effeithio ar yr amseru o ran cyflwyno'r Bil. Dylai gynnwys amserlen ddangosol hefyd ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.

## 2. Datgarboneiddio tai

**32.** Ar hyn o bryd mae tai yn gyfrifol am tua 10% o allyriadau carbon Cymru. Er mwyn i Gymru gyrraedd ei tharged Sero Net, bydd angen cymryd camau i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol drwy raglen ôl-osod.

**33.** Y cyllid cyfalaf yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd yw £72 miliwn yn 2022-23, gan gynyddu i £92 miliwn yn 2023-24 a 2024-25. Y cyllid referniw yn 2022-23 yw £773,000.

**34.** Yn ôl papur tystiolaeth y Gweinidog, cyfanswm y gost o ddatgarboneiddio'r stoc dai, ar sail amcangyfrifon Ysgol Bensaernïaeth Cymru, yw "tua £15 biliwn ... ac mae mwy na £10 biliwn ohono ar gyfer y stoc tai cymdeithasol ac ar gyfer cartrefi mewn tlodi tanwydd".

**35.** Dywedodd y Gweinidog fod y cyllid cyfalaf yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datgarboneiddio Preswyl "yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio". Mae ei phapur tystiolaeth yn datgan:

"[Bydd hyn yn] llywio ôl-osod pob cartref yn ehangach yn yr hirdymor, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru, gan gynnwys datblygu arolwg sy'n mapio, fesul cartref, y ffordd orau i ôl-osod, ac yna ymgymryd â'r mesurau sydd eu hangen i alluogi datgarboneiddio cartrefi ledled Cymru. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob landlord tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn dros y tair blynedd nesaf fel y gallant integreiddio'r agenda datgarboneiddio yn eu rhaglenni cynnal a chadw arfaethedig."

**36.** Mae hefyd yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn annog landlordiaid y sector rhentu preifat i sicrhau bod safon eu tai yn cyfateb i rai'r rhaglenni prydlesu amrywiol. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cryfhau'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn y sector rhentu preifat yn effeithiol i godi safonau oherwydd y risg y gallai landlordiaid nad ydynt yn gallu bodloni gofynion llymach adael y farchnad rentu.

**37.** Yn ôl y Gweinidog, byddai gwersi a ddysgir o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn llywio'r broses ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr, a byddai cynlluniau grant a benthyciadau i gyd-fynd â hynny. Ychwanegodd y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y potensial ar gyfer creu cysylltiad rhwng effeithlonrwydd ynni a'r dreth gyngor.

## Ein barn ni

---

Datgarboneiddio stoc dai Cymru yw un o'r heriau mawr sy'n wynebu Llywodraeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Os yw Cymru am ddod yn genedl Sero Net erbyn 2050, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd amlwg tuag at raglen ôl-osod tai yn ystod tymor y Senedd hon. Rydym yn nodi bod y cyllid i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio tai wedi cynyddu. Fodd bynnag, heb fap llwybr ar gyfer datgarboneiddio stoc dai bresennol Cymru, nid yw'n bosibl asesu a fydd lefel y cyllid yn ddigonol i sicrhau newid ar y raddfa a'r cyflymder sy'n angenrheidiol.

Pan lanswyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhoi darlun llawer cliriach o wir gostau datgarboneiddio pob un o'r 1.4 miliwn o dai yng Nghymru erbyn 2050. Hoffem gael manylion pellach am yr amcangyfrif diweddaraf o'r costau, yn ôl y math o ddeiliadaeth. Hoffem hefyd gael eglurhad o sut mae hyn wedi dylanwadau ar y dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

Nodwn mai pwrpas y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yw profi a dysgu i roi sail i broses ôl-osod ehangach, hirdymor ar gyfer pob cartref. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y dull hwn, nid yw'n glir pa ganlyniadau pendant sydd wedi deillio o'r rhaglen hyd yma, na pha ganlyniadau a ddisgwylir drwy'r buddsoddiad cynyddol dros y tair blynedd nesaf. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch hyn.

Ar hyn o bryd, mae ymdrechion a buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ôl-osod tai cymdeithasol. Dangosodd ein gwaith ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd fod angen rhoi ystyriaeth bellach i ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat, gan gynnwys ariannu'r gwaith hwnnw. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr opsiynau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat, ac i'r mater o ariannu ôl-osod yn y sector a'r sector perchen-feddianwyr. Byddwn yn ailedrych ar y materion hyn fel rhan o'r ymchwiliad yr ydym yn bwriadu ei gynnal i ddatgarboneiddio tai.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effaith y cynnydd mewn costau byw, yn enwedig prisiau ynni. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater sy'n berthnasol i gylch gwaith dau Bwyllgor arall sydd mewn sefyllfa well i wneud sylwadau manwl. Serch hynny, rydym am gofnodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan wasanaethau cynghori ddigon o adnoddau i gefnogi dinasyddion Cymru a fydd yn wynebu anawsterau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am gyfanswm y gost a amcangyfrifwyd i ddatgarboneiddio'r stoc dai, gyda manylion fesul deiliadaeth. Dylai hefyd esbonio sut mae hyn wedi llywio'r dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

---

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion canlyniadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hyd yma, a'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni drwy'r buddsoddiad cynyddol hyd at 2024-25. Dylai hyn gynnwys nifer y tai sydd wedi elwa o'r rhaglen, neu'r nifer y disgwylir iddynt elwa ohoni.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am yr opsiynau y mae'n eu hystyried i ariannu ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat.

### 3. Effeithlonrwydd o ran gwastraff ac adnoddau

**38.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer yr economi gylchol, *Mwy nag ailgylchu*. Roedd y strategaeth yn pennu nodau ar gyfer anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 a dim gwastraff o gwbl (ailgylchu 100%) erbyn 2050.

**39.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymïadau i gefnogi mwy o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu yng nghanol trefi; deddfu i wahardd eitemau plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel; a chyflwyno diwygiadau i'r sector gwastraff, gan gynnwys cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ('EPR') am becynnu plastig a chynllun dychwelyd blaendal ('DRS') ar gyfer cynwysyddion diodydd.

**40.** Mae'r dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol wedi cynyddu – mae'r refeniw wedi cynyddu £5 miliwn (i £50.3 miliwn) a'r cyfalaf wedi cynyddu £2.5 miliwn (i £40 miliwn ac yn codi i £60 miliwn yn 2023-24 a 2024-25).

**41.** Roedd papur tystiolaeth y Gweinidog yn esbonio bod cyllid wedi'i roi i gwblhau'r gwaith o ddatblygu polisi ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, "ynghyd â chymorth i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd hi'n ofynnol iddynt addasu ac, yn achos Cyfoeth Naturiol Cymru, ymgymryd â dyletswyddau newydd fel prif reoleiddiwr y diwygiadau hyn". At hynny, mae "cyllid penodol wedi'i ddynodi i gefnogi datblygu a gweithredu deddfwriaethol [o ran gwaharddiad ar blastigau untro]".

**42.** Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU ynghylch gwahardd gwahanol fathau o blastigau untro a sut y gellid cyflawni hyn yng ngoleuni Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

**43.** Esboniodd y Gweinidog fod ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i wella prosesau ailgylchu gan gynnwys, er enghraifft, lleihau "cymysgu" deunyddiau. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at y cynghorau sydd ar waelod ein tabl cynghrair yng Nghymru, gan eu gwahodd i gyfarfod â hi i drafod eu cynnydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n adrodd yn ôl am ganlyniad y trafodaethau hyn.

#### Ein barn ni

---

Mae angen dybryd i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chynigion deddfwriaethol ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am becynnu plastig a chynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd. Mae'n hen bryd cyflwyno'r cynigion hyn bellach. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd amlwg tuag at greu rheoliadau yn y misoedd nesaf.

Nodwn fod Llywodraeth yr Alban wedi creu Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Yr Alban) 2021 yn ddiweddar, a byddant yn dod i rym ym mis Mehefin 2022. At hynny, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i wahardd amrywiaeth o blastigau untro a ffynonellau llygredd plastig eraill yn Lloegr, ar ôl cyflwyno gwaharddiad eisoes ar wellt yfed, troellwyr a ffyn cotwm plastig. Rydym yn cydnabod bod materion yn ymwneud â Deddf y Farchnad Fewnol y mae angen eu datrys, ond rydym yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau rhynglywodraethol ynghylch plastigau untro, gan gynnwys rhoi gwybod a oes cytundeb ynghylch ffordd ymlaen wedi'i sicrhau.

## 4. Trafnidiaeth

**44.** Trafnidiaeth sy'n gyfrifol am 17% o allyriadau Cymru, ac mae 55% o'r rhain yn dod o geir. Mae'r polisi ar gyfer datgarboneiddio trafndiaeth wedi'i gyflwyno yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac yn y Cynllun Sero Net. Mae'r Cynllun Sero Net yn cynnwys tair blaenoriaeth ar gyfer datgarboneiddio trafndiaeth:

- Lleihau'r angen i deithio gan gynnwys galluogi tua 30% o weithwyr Cymru i weithio o bell, gweithio gartref neu weithio'n agos i'w cartrefi;
- Buddsoddi mewn dulliau teithio cynaliadwy fel bysiau, trenau a theithio llesol; ac
- Annog newid ymddygiad a newid i ddulliau mwy cynaliadwy a llesol o deithio.

**45.** Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod pwysigrwydd newid ymddygiad wrth newid dulliau teithio pobl. Dywedodd fod ystyriaethau ym maes newid ymddygiad yn newydd i'r adran, a'u bod yn dal i ystyried y ffyrdd mwyaf addas o weithio yn hyn o beth.

**46.** Mae'r gyllideb ar gyfer teithio llesol yn 2022-2023 (£60 miliwn) yn dangos gostyngiad o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol (£75 miliwn). Mae cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud y bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru "i ddatblygu cyfres o gynlluniau o ansawdd uchel, effaith uchel i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r cyllid uchaf erioed a roddwyd i deithio llesol yn 2023/24 a 2024/25, gyda'r cyllid yn £80 miliwn yn y ddwy flynedd".

**47.** Yn achos pob taith na ellir ei gwneud drwy deithio llesol, mae'r Cynllun Sero Net yn dweud y bydd angen "newid cyflym tuag at dechnolegau dim allyriadau mewn cerbydau". Polisi presennol Llywodraeth Cymru yw y dylid disodli'r 50% o fysiau gwasanaeth sy'n achosi'r llygredd mwyaf â fflyd o fysiau sy'n ddi-allyriadau o'u pibelli mwg erbyn 2028, ac i bob taci a cherbyd hurio preifat fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028.

**48.** Roedd y cynllun cyflawni carbon isel cyntaf yn cynnwys targed y byddai pob bws yn ddi-allyriadau erbyn 2028. Gostyngwyd y targed hwn i'r targed presennol o 50% (sy'n cyfateb i tua 1,200 o gerbydau) gyda'r 50% sy'n weddill i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035. Wrth gyfeirio at y gostyngiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog eu bod wedi newid y targed gan nad oedd modd cyflawni'r targed blaenorol. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn gweld y budd o gael targed a swniai'n dda ond na ellid ei gyflawni. Dywedodd eu bod felly wedi cyflwyno targed yn lle hynny sy'n dal yn heriol, ond yn un y mae angen canolbwyntio arno.

**49.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp arbenigol gydag amserlen o chwe mis i edrych ar sut y gellid prynu mewn swmp, i bob pwrpas, gan ddod



â'r holl archebion ar draws y diwydiant bysiau yn y sector cyhoeddus ynghyd wrth brynu bysiau trydan. Ychwanegodd mai'r nod oedd sicrhau bod cymaint o weithgynhyrchu â phosib yn gallu digwydd yng Nghymru.

**50.** Mewn perthynas â thacsis a cherbydau hurio preifat, esboniodd y Dirprwy Weinidog fod cynllun profi-wrth-brynu ar gyfer gyrwyr tacsï ar waith eleni, a bod hwnnw'n rhoi data defnyddiol iawn. Fodd bynnag, roedd yn ansicr a oedd y dull hwn yn gynaliadwy ac ystyried pa mor dynn yw adnoddau a bod y farchnad eisoes yn symud i gyfeiriad cerbydau trydan.

**51.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y Bil Bysiau sydd ar y gweill, gan ddweud bod y Llywodraeth yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol i greu strategaeth fysiau a Phapur Gwyn ar gyfer y Bil bysiau nesaf, er mwyn cydgynhyrchu system i reoleiddio bysiau a fydd yn cyd-fynd â gwaith Trafnidiaeth Cymru.

### **Adfer ar ôl Covid**

**52.** Mae trafndiaeth gyhoeddus wedi cael ei tharo'n galed gan y pandemig. Mae nifer y teithwyr yn dal yn llawer is na'r lefelau cyn y pandemig. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ar 20 Hydref, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod nifer y teithwyr ar fysiau yn 66-70% o'r lefelau cyn Covid, a nifer y teithwyr rheilffordd yn 65% o'r lefelau cyn Covid. Mae cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud bod £72 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi'r rheilffyrdd, a £28 miliwn ar gyfer bysiau, a hynny i ddelio ag effaith y pandemig.

**53.** Mae'r fasnachfaint rheilffyrdd mewn perchnogaeth gyhoeddus bellach, ac mae cyllid ychwanegol wedi'i roi i fysiau a threnau. Mae Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau wedi'i greu, a disgwylir iddo bara tan haf 2022, gyda chyllid brys pellach yn cael ei ddarparu y tu hwnt i hyn. Mae disgwyl hefyd i 'gytundebau partneriaeth ambarél' newydd gael eu rhoi ar waith rhwng gweithredwyr ac awdurdodau cyhoeddus.

**54.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu cynllun i gynyddu nifer y teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus yn sgil pandemig COVID-19. Dywedodd fod hyn wedi'i gynllunio ar gyfer y Gwanwyn.

### **Gwreiddio'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau**

**55.** Roedd y Cynllun Cyllid Seilwaith a oedd yn cyd-fynd â'r gyllideb ddrafft yn cynnwys ymrwymiad i foderneiddio "grantiau trafndiaeth i adlewyrchu blaenoriaethau newydd strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru a'r Hierarchaeth [Trafndiaeth Gynaliadwy]". Esboniodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog:

*"Mae'r hierarchaeth fuddsoddi yn canolbwyntio ar fesurau i reoli'r galw, gwneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol (gan gynnwys cynllunio cydgysylltiedig rhwng trafndiaeth a defnydd tir) ac ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy."*

## Cynnal a chadw priffyrdd a ffyrdd

**56.** Mae cyllideb ddrafft yr Adran Newid Hinsawdd yn dangos cynnydd yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 'gweithrediadau rhwydwaith' - sy'n cynnwys cyfalaf cynnal a chadw yn ogystal â gwasanaethu prosiectau cynnal a chadw presennol. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £106.5 miliwn yn 2021-22 i £125 miliwn yn 2022-23, £190 miliwn yn 2023-24 a £185 miliwn yn 2024-25.

**57.** Roedd papur tystiolaeth y Gweinidog yn cydnabod bod "ôl-gronid o waith cynnal a chadw cyfalaf gwerth tua £1 biliwn ar draws pob math o asedau" ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Roedd yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr "y gellid ei chyflwyno dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd, gyda'r amserlenni wedi'u haddasu i gyfateb i'r cyllid sydd ar gael". Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi'i hariannu ar hyn o bryd.

**58.** Dangosodd setliad llywodraeth leol 2021-22 fod £20 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer priffyrdd – dyraniad terfynol grant cynnal a chadw tair blynedd. Nid yw'r cyllid hwn wedi parhau yng nghyllideb ddrafft 2022-23. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn drueni na ellid parhau â'r cyllid gan ei fod wedi bod yn ddefnyddiol, ond bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd gan fod cyllid yn brin. Dywedodd mai un o'r rhesymau dros gynnal yr adolygiad ffyrdd oedd ystyried sut y gallai cyllid gael ei ailgyfeirio o adeiladu ffyrdd newydd i gynnal a chadw ffyrdd presennol. Dywedodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidogion y "bydd cynlluniau [ffordd] cydnerthedd pellach yn cael eu hystyried fel rhan o'r LTF (*Y Gronfa Trafnidiaeth Leol*)."

## Ein barn ni

---

Mae targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer newid dulliau teithio er mwyn i bobl deithio'n llesol a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn arbennig o heriol. Er mwyn eu cyflawni bydd angen newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn ymddwyn fel cymdeithas. Mae hyn yn rhywbeth y mae gan y Pwyllgor ddi-ddordeb ynddo ac y mae wedi cytuno i'w flaenoriaethu yn ystod tymor y Senedd hon. Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog ynghylch dulliau o newid ymddygiad pobl a byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ganddo am gynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Byddem yn ddiolchgar o weld unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o effaith cynnydd mawr mewn teithio llesol, neu gynnydd mawr yn nifer trigolion Cymru sy'n gweithio gartref, ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r Cydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr wedi mynegi pryder nad oes cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer datgarboneiddio gwasanaethau bysiau lleol tan 2023-24. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno targed i wneud 50% o fysiau yn ddi-allyriadau erbyn 2028. Byddem yn ddiolchgar am amlinelliad gan y Gweinidog o'r llwybr i gyrraedd targed 2028, gan gynnwys targedau interim a dulliau ariannu.

Rydym yn pryderu am y diffyg llwybr tuag at gyflawni targed Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd yn rhoi hyder i'r diwydiant wrth gynllunio penderfyniadau buddsoddi. Y targed gwreiddiol oedd y dylai pob bws fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028, ac nid oes dwywaith y byddai hynny wedi cael effaith ar benderfyniadau buddsoddi, cynllunio a gweithrediadau gweithredwyr bysiau. Mae'r targed wedi newid o 100% i 50% o fysiau erbyn 2028. Rydym yn cwestiynu pam y gosododd Llywodraeth Cymru darged mor anghyraeddadwy yn y lle cyntaf, a sut yr ystyriodd y broses honno effaith y targed ar y diwydiant bysiau. Rydym yn pryderu y gallai ansicrwydd o'r fath danseilio hyder yng nghadernid prosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw ei tharged i dacsis/cerbydau hurio fod yn ddi-allyriadau o'u pibelli mwg erbyn 2028. Rydym yn pryderu na fydd y sector hwn, gyda'r gyrrwyr yn bennaf yn unigolion hunangyflogedig a'u henillion yn isel, yn gallu cyrraedd y targed hwn heb gymorth digonol. Bydd y gost o brynu car trydan newydd yn sylweddol i lawer o yrwyr. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud ei fod yn ystyried lefel y gefnogaeth – byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch y gwaith ymgysylltu sydd wedi'i wneud gyda'r sector ar y mater hwn ac ar gyrraedd targed 2028.

Credwn fod cyflwr ffyrdd yn destun pryder, nid yn unig oherwydd ei effaith ar drafnidiaeth ffyrdd ond oherwydd y problemau ehangach y gall diffyg atgyweirio eu hachosi, fel ceuffosydd sy'n achosi llifogydd os na chânt eu cynnal. Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog am ailgyfeirio cyllid o ganlyniad i'r adolygiad ffyrdd, ond prin y byddai hyn yn cyffwrdd â'r wyneb.

Mae gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd lleol, ac ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, yn lleihau gwerth am arian wrth gynnal a chadw gan ei fod yn adweithiol, yn hytrach nag yn ddull o reoli asedau sydd wedi'i gynllunio ac yn rhagweithiol. Heb ymyrraeth, naill ai ar ffurf buddsoddiad sylweddol neu ffordd wahanol o weithio, rydym yn pryderu mai dim ond cynyddu wnaiff yr amcangyfrif o £1 biliwn ar gyfer cost y gwaith cynnal a chadw sydd heb ei wneud.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith i newid ymddygiad pobl wrth geisio newid dulliau teithio, gan gynnwys rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi hyn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o effaith cynnydd mawr mewn teithio llesol, neu gynnydd mawr yn nifer y trigolion yng Nghymru sy'n gweithio gartref, ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru osod llwybr ar gyfer cyflawni ei thargedau i wneud 50% o fysiau a 100% o dacsis/cerbydau hurio preifat yn ddi-allyriadau o'u pibelli mwg erbyn 2028, gan gynnwys manylion y gost ariannol sydd wedi'i hamcangyfrif a sut y caiff y gost hon ei thalu. Wrth wneud hynny, dylai ymgynghori â rhanddeiliaid yn y naill sector a'r llall.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, rheolau grant trafndiaeth Llywodraeth Cymru, ac unrhyw ganllawiau am baratoi cynllun trafndiaeth lleol/rhanbarthol yn cael eu diwygio i ymgorffori'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy a sicrhau gwerth am arian o fuddsoddiad a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru i gynyddu nifer y teithwyr ar ôl Covid. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu ac yn monitro effeithiolrwydd y cynllun.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau ariannu sydd dan ystyriaeth er mwyn galluogi gyrwyr cerbydau hurio preifat a thacsis i bontio i gerbydau trydan. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ymgynghori â'r sector ynghylch y materion hyn.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gellid mynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r rhwydwaith cefnffyrdd.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r sail ar gyfer y penderfyniad i beidio â pharhau â'r Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn ogystal â gwerth am arian o ran cynnal a chadw priffyrdd lleol, diogelwch ffyrdd ac ati.

## 5. Llifogydd

**59.** Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun 10 mlynedd, *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* ('y Strategaeth Genedlaethol'). Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae'n gosod amcanion a champau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt dros oes y ddogfen. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymadau i gyflwyno "mesurau ychwanegol i amddiffyn o leiaf 45,000 o gartrefi rhag llifogydd" ac i "[reoli] llifogydd mewn modd sy'n seiliedig ar natur".

**60.** Mae'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr yn £41.415 miliwn, sy'n gynydd o £12 miliwn (41%) ers 2021-22. Mae'r cyllid cyfalaf yn £67.1 miliwn, sy'n gynydd o £21.6 miliwn. Mae manylion y cyllid cyfalaf fel a ganlyn: £34 miliwn ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd; £23.1 miliwn ar gyfer diogelwch tomenni glo; a £10 miliwn ar gyfer ansawdd dŵr.

**61.** Roedd papur tystiolaeth y Gweinidog yn egluro y byddai'r cyllid ychwanegol yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Genedlaethol ac yn cyfrannu at ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu:

*"drwy ein Hawdurdodau Rheoli Risgiau Arfordirol mewn amddiffynfeydd newydd a gwell, gwaith cynnal a chadw a gwaith bachi asedau presennol, ymchwilio i ddiwyddiadau llifogydd, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, rhagolygon a rhybuddion a mapio a modelu perygl llifogydd."*

**62.** Ychwanegai'r papur:

*"Byddwn yn edrych ar ddyraniadau mwy penodol dros y misoedd nesaf ac rydym yn gobeithio gallu darparu setliad 3 blynedd, gan ganiatáu i'n hawdurdodau rheoli risg gynllunio ymlaen llaw yn fwy effeithiol a helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein Strategaeth Genedlaethol."*

**63.** Eglurodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn y broses o gynnal adolygiad rheoleiddiol o reoli perygl llifogydd i ganfod meysydd y gellid eu gwella.

**64.** O ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru am ddiwyddiadau llifogydd 2020-21. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am gostau'r adolygiad annibynnol cyn gynted ag y byddant ar gael.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn cyllid refeniw yn 2022-23 ar gyfer Awdurdodau Rheoli Risg. Hoffem gael manylion y dyraniadau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, Llifogydd yng Nghymru (Rhagfyr 2020), y dylai dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu refeniw ar gyfer llifogydd ystyried y perygl o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol mewn ardaloedd awdurdodau lleol. Ymrwymodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar y mater hwn. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i ddull Llywodraeth Cymru o ddyrannu refeniw o ganlyniad i hyn.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi newid ei dull o ddyrannu refeniw i awdurdodau lleol er mwyn ystyried y perygl o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol, yn unol ag argymhelliad y pwyllgor a'n rhagflaenodd.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar waith y mae wedi'i wneud i asesu'r gost sy'n gysylltiedig â'r adolygiad annibynnol o lifogydd mis Chwefror 2020. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch ble bydd y costau'n disgyn a dyraniadau cyfatebol yn y gyllideb.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am ganlyniad yr adolygiad rheoleiddiol o reoli perygl llifogydd, gan gynnwys y camau nesaf.

## 6. Cyfoeth Naturiol Cymru

**65.** Nid yw Cymorth Grant craidd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid ers cyllideb derfynol 2021-22, sef £60 miliwn.

**66.** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael cyllid grant (refeniw a chyfalaf) ar gyfer prosiectau sydd y tu allan i'w Gymorth Grant, er enghraifft, £1.5 miliwn i gyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Nid yw cyfanswm lefel y cyllid grant a ddyrennir i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer prosiectau o'r fath yn glir. Mae £2.4 miliwm o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu i Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n £1.5 miliwn yn ychwanegol ers 2021-22, a hynny i "helpu i gefnogi cyllid ar gyfer cronfeydd dŵr Cymru".

**67.** Roedd y Gweinidog wedi dweud wrth y Pwyllgor yn flaenorol bod adolygiad yn cael ei gynnal i edrych ar sut yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyrannu adnoddau yn unol â'i swyddogaethau statudol ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Esboniodd y Gweinidog fod hwn yn adolygiad sylfaenol a ddeilliodd o gydnabyddiaeth bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ehangu ei gylch gwaith gwreiddiol yn raddol, a bod angen eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwyliar gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar y cyllid sylfaenol y mae'n ei gael. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid ychwanegol ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud gwaith yn ychwanegol at yr hyn a ariennir gan y cyllid sylfaenol. Er enghraifft, roedd cyllid yn ystod y flwyddyn wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith ar lifogydd.

**68.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn ystyried a oedd angen newid y trefniadau presennol ar gyfer ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn cael incwm drwy werthu pren. Byddai'r adolygiad yn ystyried a oedd hon yn ffordd briodol o ariannu sefydliad yn y sector cyhoeddus, yn enwedig gan y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgwyddo'r risgiau o fanteisio ar ei asedau.

**69.** Cyfeiriodd y Gweinidog at nifer o adolygiadau o'r dechrau i'r diwedd sy'n cael eu cynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a fyddai'n sicrhau bod prosesau'n effeithlon. Byddai hyn wedyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu ar yr adnoddau staffio sydd eu hangen i gyflawni'r prosesau hyn. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau ond ychwanegodd fod yn rhaid cael y prosesau cywir a'r adnoddau cywir i sicrhau'r canlyniadau hynny.

**70.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amcangyfrif y bydd gorfodi Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021 yn gofyn am 60 o staff ychwanegol i allu cyflawni'r camau mwyaf sylfaenol, ond ymhell dros 200 i wneud y gwaith yn iawn. Yn yr un modd, yn ôl adolygiad

Cyfoeth Naturiol Cymru o lifogydd mis Chwefror 2020, canfuwyd y byddai arno angen tua 60-70 aelod o staff ar ben y nifer sylfaenol presennol i sicrhau gwelliannau tymor hir, cynaliadwy mewn gwasanaethau rheoli llifogydd. Gan gyfeirio at y staff ychwanegol yr awgrymwyd y byddai eu hangen, dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn cael ei ystyried gan yr adolygiad:

*"So, on your 60 extra staff, 200 extra staff, are they extra, or are they people who were previously looking at tree-planting schemes who can now be freed up to do something else? It's that kind of exercise, isn't it, that we're really looking at?"*

## Ein barn ni

Mae ein gwaith ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, a'n gwaith ar yr amgylchedd morol, wedi amlygu pryder eang ymhlith rhanddeiliaid ynghylch gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol, a hynny oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Mae hyn yn cynnwys pryderon am ei allu i fonitro a gorfodi cyfreithiau diogelu'r amgylchedd; ei allu i ymateb i achosion o lygredd amgylcheddol a llifogydd; ei allu i fonitro ac asesu cyflwr safleoedd daearol a morol; a'i allu i gefnogi defnydd tir a chynllunio morol.

Mae cyfrifoldebau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynyddu, yn fwyaf diweddar gyda chyfrifoldeb newydd am orfodi'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ('Rheoliadau 2021'). Yn y blynyddoedd nesaf, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddynodi Parc Cenedlaethol newydd a dros reoleiddio diwygiadau newydd ym maes rheoli gwastraff.

Er ein bod yn cydnabod bod gwaith ar y gweill i adolygu cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'n glir pam nad yw'r gost o orfodi Rheoliadau 2021 wedi'i hadlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb. Hoffem i'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dechrau'r Chweched Senedd fel cyfle i wrthdroi'r duedd hanesyddol o doriadau yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn disgwyl i'r adolygiad presennol arwain at setliad cyllido ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gwir adlewyrchu ei gyfrifoldebau statudol a'r tasgau y disgwylir iddo eu cyflawni.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y gwaith a wnaed i asesu'r costau sy'n gysylltiedig â gorfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ac egluro pam nad yw'r costau hyn wedi'u hadlewyrchu yn nyraniad y gyllideb.

**Argymhelliad 24.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid y corff yn y dyfodol yn gymesur â'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Disgwylwn weld cynnydd yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad o'r llinell sylfaen.



## 7. Polisi Morol

**71.** Mae cyllid refeniw o £1.9 miliwn wedi'i ddyrannu yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 'Polisi Morol, Tystiolaeth a Chyllid'. Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn ariannu'r broses o roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith, yn ogystal â chyflawni rhai o bolisiau penodol y cynllun hwnnw. Nid oes newidiadau arfaethedig yn y dyraniadau dangosol yn 2023-24 a 2024-25.

**72.** Dywedodd papur tystiolaeth y Gweinidog, "Bydd dyraniadau cyllidebol i gefnogi rheolwyr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn debyg i gyllideb y llynedd". Dywedodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog hefyd fod "camau gweithredu arfaethedig yn parhau i gael eu gwahodd yn flynyddol a, lle bo'n briodol, gellir eu hystyried ar gyfer cyllid drwy Gynllun Grant Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig".

**73.** Yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2021-22, cadarnhaodd swyddog fod prosiect yn mynd rhagddo i ganfod safleoedd ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol cyn y broses ymgynghori. Serch hynny, nid oes Parthau Cadwraeth Morol wedi cael eu dynodi.

**74.** Mewn ymateb i gwestiwn am y cyllid ar gyfer ynni morol a'r gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy, cydnabu'r Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ceisio annog diwydiannau sydd â photensial i fod yn hynod flaengar, ond ar yr un pryd ei bod am warchod ein hardaloedd cadwraeth morol hynod o hardd, sydd heb eu difetha. Ychwanegodd fod angen ystyried ar yr un pryd a ddylid ehangu'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hynny'n fuan iawn.

**75.** Holwyd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a oedd y cyllid a ddyrannwyd i bolisiau morol yn ddigonol i adlewyrchu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cadwraeth ac ynni adnewyddadwy ill dau. Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i edrych ar brosesau cydsynio ynni morol o'u dechrau i'w diwedd i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol, yn ogystal â chynnal adolygiad sylfaenol o swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (a drafodir ym Mhennod 7).

**76.** Mewn ymateb i gwestiwn am y potensial i ddenu cyllid o fannau eraill ar gyfer gweithgareddau fel casglu tystiolaeth am yr amgylchedd morol, dywedodd y Gweinidog fod y materion hyn yn destun trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid fel Ystad y Goron. Ychwanegodd:

*"we expect the big renewable developers with accepted ways of generating energy to contribute both in community funds and others to marine environment protection"*

*and to energy transmission and so on, but part of what we'll be doing is working out what does that look like, how does the split look like and so on."*

**77.** Gan gyfeirio at faint yr her o ran casglu tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog fod dulliau arloesol o gasglu tystiolaeth yn cael eu hystyried a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn dysgu o brofiadau yn yr Alban a Chanada am gasglu tystiolaeth forol.

## **Ein barn ni**

---

Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliodd y Pwyllgor ddarn byr o waith ar yr amgylchedd morol, a hwnnw'n ystyried polisiau morol Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwnnw'n gwneud sawl argymhelliad sy'n berthnasol i'r bennod hon, gan gynnwys mewn perthynas ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ynni morol adnewyddadwy.

Rydym yn cydnabod mai pwrpas y gwaith dadansoddi manwl yn y maes ynni adnewyddadwy oedd cael gwared ar rwystrau i ddatblygu. Mae adolygiad i symleiddio'r broses gydsynio i'w groesawu. Fodd bynnag, mae diffyg dybryd o ran sylfaen dystiolaeth gadarn i roi sail i benderfyniadau datblygu ac, o ganlyniad, mae risgiau cynhenid yn gysylltiedig â chynyddu datblygiadau.

Rydym yn falch bod casglu tystiolaeth forol yn destun trafodaethau parhaus a byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am y cynnydd.

Rydym wedi ein siomi gan y diffyg cynnydd parhaus o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol a byddem yn ddiolchgar am esboniad gan y Gweinidog o'r rhesymau dros hyn.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r diffyg cynnydd o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol, a rhoi amserlen ar gyfer eu dynodi.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd yn cefnogi cynnydd mewn casglu tystiolaeth forol a rhannu data, i'r raddfa sy'n angenrheidiol i ymateb i'r cynnydd a ragwelir mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy morol.

## 8. Llywodraethu amgylcheddol

**78.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch amseru hyn. Fel cam dros dro, penododd Llywodraeth Cymru Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ('yr Asesydd Interim') i oruchwylio sut mae'r gyfraith amgylcheddol yn gweithio.

**79.** Mae'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Deddfwriaeth a Llywodraethu'r Amgylchedd yn sefydlog ar £181,000 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf.

**80.** Yn ôl papur y Gweinidog, bydd y cyllid yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Deddfwriaeth a Llywodraethu'r Amgylchedd yn cael ei ddefnyddio i "[dd]atblygu mesurau llywodraethu amgylcheddol parhaol". Telir costau'r Asesydd Interim o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymadael â'r UE.

**81.** Ailddatganodd y Gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth statudol, er na roddodd unrhyw fanylion pellach am yr amseru.

### Ein barn ni

Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo o'r blaen i roi diweddariad inni am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu Bil llywodraethu amgylcheddol cyn diwedd mis Mawrth 2022. Disgwylwn i hyn gynnwys manylion unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud neu'n bwriadu ei wneud i asesu'r gost sy'n gysylltiedig â chorff llywodraethu amgylcheddol newydd.

Rydym eisoes wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Bil llywodraethu amgylcheddol yn ail flwyddyn y Chweched Senedd ac i ddeddfu i greu targedau bioamrywiaeth. Rydym yn ailadrodd yr alwad honno.

**Argymhelliad 27.** Cyn diwedd mis Mawrth 2022, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu Bil llywodraethu amgylcheddol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw waith sydd wedi'i wneud, neu waith sydd ar y gweill, i asesu'r gost sy'n gysylltiedig â chorff llywodraethu amgylcheddol newydd.

## 9. Adfer byd natur

- 82.** Ym mis Mehefin 2021, datganodd y Chweched Senedd argyfwng natur i gydnabod y dirywiad mewn bioamrywiaeth ar lefel fyd-eang a domestig. Wrth wneud hynny, cyhoeddodd ei disgwyliadau ar gyfer camau gweithredu cryfach i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth statudol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol statudol i Gymru.
- 83.** Yn dilyn y Cytundeb Cydweithio (Rhagfyr 2021), diweddarwyd y Rhaglen Lywodraethu i gynnwys ymrwymiad i "[w]eithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth".
- 84.** Mae Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn dangos sut y bydd yn rhoi sylw i Gynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 2011-2020 a'r targedau Aichi cysylltiedig. Bydd pymthegfed cyfarfod Cynhadledd y Partion (COP15) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn cael ei gynnal ym mis Mai 2022 pan fydd penderfyniad ar y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Ôl-2020 yn cael ei wneud.
- 85.** Mae'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion wedi cynyddu o £6.6 miliwn (2021-22) i £13.6 miliwn (2022-23). Mae'r cyllid cyfalaf yn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb wedi gostwng o £21 miliwn i £20 miliwn yn 2023-4 a 2024-25.
- 86.** Nid yw'r cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Galluogi Adnoddau Naturiol wedi newid ers 2021-22, ond mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng o £6.4 miliwn (2021-22) i £2 filiwn (2022-23).
- 87.** Dywedodd papur tystiolaeth y Gweinidog y byddai cynlluniau ariannu fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol a Natur am Byth yn helpu "i gyflwyno natur i ble bynnag mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol" ac i "feithrin gallu o fewn y sector i helpu i weithredu ar lawr gwlad". Dywedodd hefyd:
- "Bydd [y buddsoddiad] yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a champau gweithredu allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur sy'n ymwneud â diogelu ein cynefinoedd a'n rhywogaethau o bwys a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth."*
- 88.** Pan ofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith penderfyniadau buddsoddi ar fioamrywiaeth, dywedodd swyddog y Gweinidog:

*"...it's important, from the budget perspective, that we do an overall impact assessment on the budget and, as we go into the financial year, we present to the Minister programmes and projects and then individual impact assessments are done on that basis...So, the detail on specifics is not done quite yet."*

**89.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid i ddisodli'r rhaglen **EU LIFE**. Mae'n dweud bod trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig am unrhyw gynllun posibl yn y DU yn lle'r cynllun blaenorol.

**90.** Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'n gwneud gwaith dadansoddi manwl ym maes bioamrywiaeth yng ngwanwyn 2022, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru.

**91.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod wedi cyfarfod â Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd 2021 i drafod datblygu achos busnes ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol. Roedd y cynnig ar gyfer y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn un o'r camau blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adfer Gwyrdd.

## Ein barn ni

Mae angen newid brys, trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a gwrthdroi'r duedd o golli bioamrywiaeth. Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn gwariant uniongyrchol i gefnogi bioamrywiaeth. Fodd bynnag, ceir diffyg eglurder ynghylch cyfanswm lefel y buddsoddiad ym mhorthffolio'r Gweinidog, ac ar draws y Llywodraeth yn ehangach, i adfer byd natur. Mae diffyg eglurder hefyd ynghylch sut y bydd effaith buddsoddiadau o'r fath ar fioamrywiaeth yn cael ei hasesu a'i monitro. Hoffem gael esboniad manylach o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â hyn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog am y gwaith dadansoddi manwl ym maes bioamrywiaeth, a byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am ddiben ac amserlenni'r gwaith hwn. Maes o law, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau yn nyraniadau'r gyllideb sy'n deillio o argymhellion y dadansoddiad manwl.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol. Disgwylwn weld cynnydd amlwg tuag at ddatblygu cynigion (gweler yr adran am lywodraethu amgylcheddol).

Dylai'r Gweinidog ddatgan ei safbwynt am y cynnig i greu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol a rhoi syniad o ba bryd y disgwylir penderfyniad ganddi am hyn. Dylai'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw ei phenderfyniad terfynol.

Mae trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig am gynllun i ddisodli'r cynllun EU LIFE wedi bod yn mynd rhagddynt ers peth amser ac mae'n ymddangos bod unrhyw obaith y caiff hyn ei ddatrys yn pylu. Dylai'r Gweinidog egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg cynnydd hwn ac i ddod o hyd i ffordd o fwrw ymlaen.

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn asesu ac yn monitro effaith penderfyniadau gweithredu a gwariant ar adfer byd natur ar draws y Llywodraeth.

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r dadansoddiad manwl ym maes bioamrywiaeth cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu targedau bioamrywiaeth a gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer eu cyflwyno.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan ei safbwynt am y cynnig i greu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol a rhoi syniad o ba bryd y disgwylir penderfyniad ar y cynnig. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor am y penderfyniad hwnnw ar ôl iddo gael ei wneud.

## 10. Coedwigaeth a choetiroedd

**92.** Mae cynnydd o £4 miliwn yn y cyllid refeniw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Coedwigaeth ('BEL 2827'), gyda'r cyllid yn cynyddu i £5.2 miliwn, sef cynnydd o 328%. Daw'r cyllid ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r cyllid cyfalaf yn dyblu i £9 miliwn.

**93.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Senedd ym mis Gorffennaf fod angen i Gymru "blannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030, gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050" i gyrraedd sero net. Mae hon yn gyfradd blannu uwch na'r hyn a amlinellwyd yn strategaeth coetiroedd 2018 Llywodraeth Cymru (plannu o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030) ac yng nghynllun cyflawni carbon isel 2019 (plannu 2,000 hectar y flwyddyn, gan gynyddu i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl). Mae'r targedau uchelgeisiol hyn wedi'u gosod tra bo'r cyfraddau plannu ar hyn o bryd yn isel iawn. Yn y degawd rhwng 2010 a 2020, y gyfradd blannu gyfartalog oedd 430 hectar y flwyddyn. Gostyngodd y gyfradd i 80 hectar yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020 cyn codi i 290 hectar yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021.

**94.** Lansiodd y Prif Weinidog raglen y goedwig genedlaethol yn 2020. Dywedodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog fod y gyllideb yn bwrw ymlaen â'r rhaglen drwy ariannu 30 o ardaloedd newydd o'r goedwig genedlaethol, 100 o 'goedwigoedd bach', a chynnig coeden i bob cartref ei phlannu neu goeden i'w phlannu ar eu rhan. Mae hyn yn ychwanegol at 14 o safleoedd enghreifftiol a gyhoeddwyd eisoes. Mae'r cyflwyniad ysgrifenedig hefyd yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar strategaeth ar gyfer y goedwig genedlaethol ym mis Ionawr 2022.

**95.** Yn 2021, dechreuodd y Dirprwy Weinidog waith dadansoddi manwl yn edrych ar gael gwared ar rwystrau i blannu a defnyddio mwy o bren Cymreig wrth adeiladu. Roedd yr argymhellion o'r gwaith hwn yn cynnwys cynllun ariannu newydd ar gyfer creu coetiroedd a strategaeth i gydlynu cyflenwadau pren ac adeiladu. Mae cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud bod y gyllideb yn galluogi cyflawni'r naill a'r llall o'r pethau hyn, gyda'r cynllun ariannu'n cael ei lansio yn 2022.

**96.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at gyfleoedd i ddenu buddsoddiad preifat er mwyn helpu i blannu coed ac roedd yn cydnabod bod hyn wedi bod yn ddadleuol mewn rhai achosion. Esboniodd:

*"to meet our ongoing commitments on tree planting, as recommended by the UK climate change committee to achieve net zero, we need to increase our annual tree planting 50-fold. Now, we are not going to be able to afford to do that simply by using public money...Now, how we choreograph that in a way that doesn't see the*

*wealth generated, the benefit generated exported, so we continue this extractive economic model that Wales has been plagued by for centuries, is a key policy challenge, and one that we are grappling with at the moment."*

**97.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at enghraifft yn Sir Gaerfyrddin, lle'r oedd trigolion yn gwrthwynebu cynigion lle byddai cwmni buddsoddi ecwiti preifat yn meddiannu fferm ac yn plannu coed conwydd dros y rhan fwyaf ohoni. Dywedodd fod hyn wedi achosi tensiwn mawr yn lleol. Wrth wneud hyn, ac wrth ddenu buddsoddiad preifat, ychwanegodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn dangos pwysigrwydd y manylion, rhag dieithrio pobl ac achosi iddynt gefnu ar y polisiau y mae arnom eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd. O ganlyniad i'r gwaith dadansoddi manwl a edrychai ar y rhwystrau i blannu coed, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod grŵp wedi'i sefydlu i ystyried a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid denu cyllid allanol mewn ffordd sy'n osgoi'r peryglon hyn.

**98.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y cynllun i roi coeden i bawb yng Nghymru i'w phlannu neu goeden i'w phlannu ar eu rhan. Dywedodd fod hyn yn ymwneud ag ennyn diddordeb y cyhoedd a newid agweddau pobl, gan wneud i bobl feddwl am fyd natur ac effaith eu hymddygiad eu hunain, a'r hyn y gallant ei wneud eu hunain, yn gymaint ag y mae'n ymwneud â dal a storio carbon. Cydnabu nad oedd y 0.5 miliwn o goed y cyllidebwyd ar eu cyfer yn agos at y targed o 86 miliwn o goed erbyn diwedd y degawd, ond dywedodd y byddent yn gwneud cyfraniad pwysig wrth newid ymddygiad ac agweddau pobl.

## **Ein barn ni**

---

Mae'r tangyflawni parhaus ym maes plannu coed yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn adroddiadau pwyllgorau'r Senedd ar gyllidebau drafft. Nid yw eleni yn eithriad. Fodd bynnag, rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi dechrau gwaith dadansoddi manwl ar y rhwystrau i blannu. Byddwn yn aros i weld canlyniadau'r gwaith hwnnw, gan gynnwys cynllun ariannu newydd sydd i'w lansio yn 2022.

Rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi dweud bod cyflwyno cyllid o'r sector preifat drwy gwmnïau sy'n prynu tir fferm eisoes wedi achosi cryn bryder mewn cymunedau gwledig. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp sydd wedi cael y dasg o ystyried materion mewn perthynas ag ariannu plannu ar y raddfa sy'n angenrheidiol.

Rydym wedi cytuno i roi blaenoriaeth i ystyried polisiau coedwigaeth gan gynnwys y Goedwig Genedlaethol, a'r cynnydd tuag at gyflawni argymhellion y gwaith dadansoddi manwl a Chynllun Gweithredu newydd Coetiroedd i Gymru. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn yn 2022-23.



Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog ynghylch darparu coeden i unigolion ei phlannu neu goeden i'w phlannu ar eu rhan. Rydym yn cydnabod mai prif nod y cynllun yw newid ymddygiad pobl. Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer sy'n manteisio ar y cynllun hwn a gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw hyn wedi bod yn llwyddiant.

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y 6 mis nesaf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i weithredu argymhellion y gwaith dadansoddi manwl ar y rhwystrau i blannu coed.

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am waith y grŵp sy'n ystyried materion yn ymwneud â defnyddio cyllid preifat i ariannu plannu coed ar y raddfa sy'n angenrheidiol.

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y 6 mis nesaf am y nifer sy'n manteisio ar y cynllun i roi coeden i unigolion ei phlannu neu goeden i'w phlannu ar eu rhan. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw'r cynllun wedi bod yn llwyddiant.

## 11. Seilwaith digidol

**99.** Mae telathrebu yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl, sy'n golygu bod ymyriadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi'u cyfyngu i gyllid grant a defnyddio ysgogiadau polisi datganoledig – fel cynllunio ac ardrethi busnes – i annog buddsoddiad preifat. Mae **Strategaeth Ddigidol** Llywodraeth Cymru yn datgan:

*"Byddwn yn buddsoddi i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lle ceir achos o blaid hynny, fodd bynnag, rhaid inni ganolbwyntio hefyd ar sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ysgwyddo'i chyfrifoldebau yng Nghymru."*

**100.** Ers 2014, mae'r gwasanaeth band eang cyflym iawn yng Nghymru wedi gwella'n aruthrol, ac mae bron â chyrraedd yr un lefel â chyfartaledd y DU. Mae'r ddarpariaeth 4G wedi gwella'n sylweddol hefyd, ond mae'r bwch rhwng Cymru a chyfartaledd y DU yn parhau.

**101.** Mae buddsoddiad cyhoeddus dan arweiniad Llywodraeth Cymru drwy ei rhaglen Cyflymu Cymru wedi gwella'r ddarpariaeth band eang cyflym iawn. Talwyd tua £220 miliwn i BT i ddod â band eang cyflym iawn i tua 96% o safleoedd rhwng 2014 a 2018. Ar hyn o bryd mae gan BT gynllun i olynu hwnnw ar ran Llywodraeth Cymru, er mwyn cysylltu 39,000 o safleoedd ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £24 miliwn o gyfanswm o £59 miliwn mewn arian cyhoeddus.

**102.** Mae grantiau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd ar gael er mwyn i unigolion a grwpiau wella eu cysylltiadau. Caiff y cynlluniau hyn eu harwain gan alw ac nid oes ganddynt dargedau cysylltedd.

**103.** Mae rhwydweithiau ffonau symudol wedi'u gadael, i raddau helaeth, i ddarpariaeth fasnachol, gydag ysgogiadau'r Llywodraeth yn cael eu defnyddio i gymell y broses o gyflwyno darpariaeth sydd ar ymylon hyfywedd masnachol. Bydd buddsoddiad gwerth £500 miliwn gan Lywodraeth y DU yn arwain at greu "Rhwydwaith Gwledig a Rennir". Erbyn diwedd 2025, dylai'r ddarpariaeth 4G gan bob gweithredwr yng Nghymru gynyddu o 60% i 80%.

### Ein barn ni

---

Rydym yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gwella cysylltedd er bod problemau yn dal i fodoli mewn sawl ardal. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei chyfrifoldebau mewn maes polisi sydd wedi'i gadw yn ôl. Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y mater hwn, gan gynnwys unrhyw feysydd sy'n peri pryder iddi. At hynny, byddem yn ddiolchgar am wybodaeth gan

Lywodraeth Cymru am unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud i weld a oes diffyg cyllid; maint ac effaith y diffyg; ac a yw dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn ddigonol i lenwi bylchau ariannu Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 35.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi meintioli diffyg cyllid penodol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chysylltedd digidol. Os hynny, dylai ddarparu manylion unrhyw dargedau cysylltedd y mae'r ffigur yn seiliedig arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw ei dyraniadau cyllidebol yn y maes hwn yn ddigonol i fodloni unrhyw ddiffyg cyllid gan Lywodraeth y DU.